# MESUR BWYTA'N IACH MEWN YSGOLION (CYMRU) 2009

---

## EXPLANATORY NOTES

### RHAGYMADRODD

1. Mae’r nodiadau esboniadol hyn yn cyfeirio at Fesur Bwyta’n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 fel y cafodd ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a’i gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 15 Hydref 2009. Maen nhw wedi’u paratoi gan Jenny Randerson AC, cynigydd y Mesur, i helpu’r sawl sy’n darllen y Mesur. Dylai’r Nodiadau Esboniadol hyn gael eu darllen ar y cyd â’r Mesur ond dydyn nhw ddim yn rhan ohono.

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Adran 1: Hybu disgyblion mewn ysgolion a gynhelir i fwyta ac yfed yn iach*

2. Mae’r adran hon yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol ac ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i gymryd camau i hybu bwyta ac yfed yn iach. Wrth gyflawni’r ddyletswydd honno, mae’n rhaid iddyn nhw roi sylw i unrhyw ganllawiau a fydd yn cael eu dyroddi gan Weinidogion Cymru o ran beth yw bwyta ac yfed yn iach; pa gamau a fyddai’n briodol a sut y dylai egwyddorion datblygu cynaliadwy gael eu cymhwyso at fwyta ac yfed yn iach.

#### *Adran 2: Adroddiadau llywodraethwyr*

3. Mae’r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i’r corff llywodraethu gynnwys gwybodaeth yn ei adroddiad blynyddol am y camau sydd wedi’u cymryd i annog disgyblion yr ysgol i fwyta ac yfed yn iach.

#### *Adran 3: Swyddogaethau’r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*

4. Mae adran 20(1) o Ddeddf Addysg 2005 yn nodi’r materion y mae’r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o dan ddyletswydd i roi gwybodaeth amdanyn nhw yn gyson i Weinidogion Cymru. Mae’r adran hon yn ychwanegu paragraff (g) newydd i’r is-adran honno er mwyn ei gwneud yn ofynnol hefyd i’r Prif Arolygydd gyflwyno adroddiadau ar y camau sydd wedi’u cymryd i hybu bwyta ac yfed yn iach.

#### *Adran 4: Gofynion yngl#n â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgol etc.*

5. Mae’r adran hon wedi’i seilio ar yr adran 114A gyfredol yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sy’n cael ei chynnwys yn y Mesur fel bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch safonau maethiad yn yr ysgolion yn cael ei thrafod mewn un darn o ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae’n parhau i roi p#er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi gofynion a fydd yn gymwys i’r bwyd a’r ddiod sy’n cael eu darparu ar fangre unrhyw ysgol a gynhelir. Caniateir hefyd i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â bwyd a diod sy’n cael eu darparu gan yr awdurdodau lleol

neu’r corff llywodraethu mewn man arall ar gyfer disgyblion sydd wedi’u cofrestru yn yr ysgol. Serch hynny, fydd y gofynion ddim yn gymwys i ginio pecyn.

6. Mae’r adran hefyd yn ychwanegu, yn is-adran (2), b#er i bennu uchafsymiau braster, braster dirlawn, halen a siwgr yn y bwyd a’r ddiod sy’n cael eu darparu ar gyfer disgyblion.

7. Mae hefyd yn cynnwys gofyniad bod rhaid i Weinidogion Cymru ganfod barn disgyblion ac eraill cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon.

### *Adran 5: D#r yfed mewn ysgolion*

8. Mae’r adran hon yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i sicrhau bod cyflenwad d#r yfed ar gael yn rhad ac am ddim, ac i roi sylw unrhyw ganllawiau a fydd yn cael eu dyroddi gan Weinidogion Cymru.

### *Adran 6: Hybu prydau mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill*

9. Mae’r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i’r awdurdodau lleol hybu argaeledd prydau ysgol a llaeth yn gyffredinol, a chinio ysgol a llaeth am ddim yn benodol, a hybu’r niferoedd sy’n eu cymryd.

### *Adran 7: Diogelu manylion adnabod disgyblion sy’n cael cinio ysgol am ddim*

10. Er mwyn rhoi hwb i’r niferoedd sy’n cymryd prydau ysgol iach, mae’r adran hon yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i ddiogelu manylion adnabod y rhai sydd â hawl i gael cinio ysgol neu laeth am ddim, ac i wneud hynny yn unol ag unrhyw ganllawiau a fydd yn cael eu dyroddi gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn cael ei wneud drwy osod adran 512ZC newydd yn Neddf Addysg 1996 yn union ar ôl yr adran yn y Ddeddf honno sy’n ymdrin â’r hawl i gael cinio ysgol am ddim.

### *Adran 8: Diwygiadau canlyniadol*

11. Gan fod adran 7 o’r Mesur hwn yn disodli adran 114A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 o ran Cymru, mae’r adran hon yn gwneud newidiadau o ganlyniad i hynny yn adran 114A i’w gwneud yn glir nad yw’r adran honno’n gymwys i Gymru.

### *Adran 9: Arbediad*

12. Mae’r adran hon yn sicrhau bod effaith unrhyw reoliadau sydd wedi’u gwneud o dan adran 114A cyn i’r Mesur hwn ddod i rym yn parhau, fel na fydd yna ddiffyg rheoliadau yn ystod y cyfnod cyn i reoliadau gael eu gwneud o dan y pwerau sydd wedi’u cynnwys yn y Mesur hwn.

### *Adran 10: Gorchmynion a rheoliadau*

13. Mae’r adran hon yn cynnwys y manylion arferol ynghylch p#er Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Byddai hwnnw’n dod o dan y weithdrefn negyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol, gydag un eithriad. Yn unol â’r arfer cyffredin, fyddai dim gweithdrefn mewn perthynas â gorchmynion cychwyn a fyddai’n cael eu gwneud o dan adran 12(3).

### *Adran 11: Dehongli*

14. Mae’r adran hon yn diffinio nifer o dermau sy’n cael eu defnyddio yn y Mesur, ond does dim darpariaethau o sylwedd ynddi.

### *Adran 16: Enw byr a chychwyn*

15. Mae’r adran hon yn cyflwyno’r enw y bydd y Mesur yn cael ei adnabod wrtho yn gyffredinol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer dod â’r Mesur i rym. Mae’r adran hon yn dod

i rym ar y dyddiad y mae'n cael ei chymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn un o gyfarfodydd y Cyfrin Gyngor, a byddai gweddill y Mesur yn dod i rym yn unol â Gorchymyn Cychwyn a fyddai'n cael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

16. Mae'r adran hefyd yn darparu bod y Mesur i gael ei gynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg sydd wedi'i nodi yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996. Bydd hynny'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer pwerau diofyn os bydd awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu'n torri darpariaethau'r Mesur hwn.

## COFNOD TRAFODION CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Mae'r tabl canlynol yn nodi dyddiadau pob Cyfnod wrth i'r Mesur fynd drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am basio'r Mesur ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation.htm

| | |
|---|---|
| Cyflwyno'r Mesur | 14 Mawrth 2008 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor yn ystyried yr egwyddorion cyffredinol | 20 Mai 2008 |
| | 3 Mehefin 2008 |
| | 10 Mehefin 2008 |
| | 17 Mehefin 2008 |
| | 24 Mehefin 2008 |
| | 1 Gorffennaf 2008 |
| Cyfnod 1 – Trafodaeth yn y cyfarfod llawn ar yr egwyddorion cyffredinol | 15 Hydref 2008 |
| Cyfnod 2 – Y Pwyllgor yn ystyried gwelliannau | 10 Mehefin 2009 |
| Cyfnod 3 – Y cyfarfod llawn yn ystyried gwelliannau | 8 Gorffennaf 2009 |
| Cyfnod 4 – Pasio'r Mesur yn y cyfarfod llawn | 8 Gorffennaf 2009 |
| Derbyn Cymeradwyaeth Brenhinol yn y Cyfrin Gyngor | 15 Hydref 2009 |